# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Rhagfyr 2024 – Cyfrol 10 – Rhifyn 3

£1

## Eira, eira...

Daeth eira a Storm Bert ym mis Tachwedd a effeithiodd arnom ni i gyd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Roedd rhaid i ni ddelio â ffyrdd rhewllyd ac eira dwfn, ond roedd y golygfeydd prydferth yn ein hardal yn werth yr anhawster. Hefyd, roedd hi'n hwyl gweld dau ddyn eira yn eistedd ar y fainc ger croesffordd Celynog. Diolch am godi ein calonnau!



Profodd y Siop Gymunedol ei gwerth yn ystod yr eira – roedd yn golygu bod prydau parod, llefrith a bara ar gael heb orfod teithio'n rhy bell. Roedd arogl y rholiau brecwast (hoffech chi facwn, wy, neu selsig?!) hefyd yn ei gwneud hi'n amhosib eu gwrthod. Roedd hwn yn syniad mor dda ac mor boblogaidd, byddan nhw ar gael bob bore dydd Sul. Llongyfarchiadau i bawb ar y llwyddiant hyd yn hyn.



# Pytiau newyddion

DIOLCH i Eglwys St Tyrnog (ac i David am hel y cyfraniadau mor ofalus) am ganiatáu dosbarthu Llais Llandyrnog o’r eglwys. Yn y dyfodol bydd y cylchgrawn ar gael o Tŷ Ceffyl Bach a’r siop gymunedol.

DYMUNIADAU DA AM WELLHAD BUAN
i Gareth Williams ar ôl ei anffawd yn ddiweddar gyda gwenyn;
i Menna Davies sydd bellach yng nghartref Cysgod y Gaer..

LLONGYFARCHIADAU: Mae Gwinllan y Dyffryn wedi ennill gwobr am y gwin rosé pefriog gorau a’r rosé llonydd gorau yng ngwobrau diweddar Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru. Cafodd pum beirniad y gwaith anodd o feirniadu 72 o winoedd yn ystod y gystadleuaeth yng Ngwesty Llanerch. Diolch i bawb a oedd yn ymwneud a threfniadau digwyddiad gwych arall yn tynnu sylw at winoedd ardderchog Cymru.



# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 1af | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 8fed | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentref |
| 15fed | 16.00 | Christingle yn Neuadd y Pentre |
| 22ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 24ain | 17.00 | Gwasanaeth y Preseb |
| 25ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 29ain | 10.30 | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu yn Llanrhaeadr |

**Ni fydd gwasanaethau yn eglwys St Tyrnog am y tro oherwydd diffyg gwres**



Cafodd y Parch. Sam Quilty ei thrwyddedu ddydd Sul, 17 Tachwedd yn offeiriad yn Ardal Genhadaeth Dinbych. Bydd hi’n gofalu am eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan. Croeso i’r plwyf!

## Cyfarchion y Nadolig

Dymuniadau gorau i fy nghymdogion a fy ffrindiau dros yr ŵyl – Margaret, Awel y Foel

Nadolig Llawen i bawb gan Wyn Wilson, Moelfa.

Mae Bryn ac Anwen yn dymuno Nadolig Llawen i’n holl ffrindiau yn y pentref.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | $2^{il}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | $3^{ydd}$ | Clwb Llyfrau, 10am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mer | $4^{ydd}$ | Cyfarfod is-bwyllgor cyllid y Cyngor Cymuned |
| Llun | $9^{fed}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Mer | $11^{eg}$ | Undeb y Mamau, 2pm |
| Llun | $16^{eg}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | $17^{eg}$ | Clwb Llyfrau, 10am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Iau | $19^{eg}$ | Gweithdy crefftau, 7–9pm: addurniadau Nadolig macramé |
| Llun | $23^{ain}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | $24^{ain}$ | Clwb Llyfrau 10am |
| Llun | $30^{ain}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |

I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun $2^{il}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9pm |
| Mer $4^{ydd}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad $7^{fed}$ | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Sul $8^{fed}$ | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun $9^{fed}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer $11^{eg}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad $14^{eg}$ | Bore coffi – Llais Llandyrnog | 10–11.30pm |
| Sul $15^{fed}$ | Gwasanaeth Christingle | 4pm |
| Llun $16^{eg}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer $18^{fed}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |

I hurio Neuadd y Pentre, cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

**Siop Llandyrnog**

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 8pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 12.30pm |

Sul9.30am – 12pm

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm

Sadwrn 9am – 12.30pm

07301 573362

01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

llandyrnogshop.com

Prompt Travel
Taxi & Private Hire
4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week
Incorporating Vale Private Hire
01824 790485
07974 862027
Teithiau Prydlon
Tacsi a Hurio Preifat

# Ail ran taith Bryn ar hyd Taith y Pererin

Ar ôl rhoi'r gorau iddi oherwydd profiad ysgytwol ar y daith flaenorol (bron â boddi mewn rhedyn uchel!), dyma ailafael ynddi i ddychwelyd i Dremeirchion a mynd tuag at Lanelwy a Bontnewydd.

A dweud y gwir, o Dremeirchion mae'n llwybr anghyfannedd iawn, yn croesi dolydd ffrwythlon iawn i lawr at nant fechan. Croesi hon cyn mynd i fyny'r lôn tuag at Waen, heb fod yn bell o'r Farmers' Arms. Fodd bynnag, mi wnes i sylwi ar ffynnon fach o dan dyfiant trwchus ar ochr y llwybr – arwydd sicr fy mod i ar y trywydd iawn. Mae llawer o ffynhonnau ar y daith.



Wrth edrych i'r chwith ar draws y dolydd hyfryd hyn, mae'n amhosib peidio â sylwi ar Llannerch Hall sydd erbyn hyn yn nifer o fflatiau. Yn yr oesoedd canol, ei henw oedd Lleweni Vechan.

Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, Capten Piers Jones a'i deulu oedd yn berchen ar y stad ond roedd yn rhaid iddo werthu'r cyfan i dalu dyled gamblo. Yn lleol, y stori ydi mai troi cerdyn a achosodd colli'r stad. Stori dda, ond mae'n amheus faint o wirionedd sydd ynddi. Beth bynnag a ddigwyddodd, daeth lwc y Capten Jones i ben a bu'n rhaid gwerthu'r stad i dalu'r ddyled. Yn Saesneg, y tri D a achosodd chwalu'r rhan fwyaf o stadau – *death*, *divorce*, *debt*.

Triodd rhywun agor sw yno ar ddechrau'r 1960au – Pwll Fflamingo yw enw'r pwll cyntaf islaw Pont Llannerch.

Teithio wedyn rhwng tai drudfawr ac i lawr at bont dros Afon Clwyd ac yn ôl at du ôl yr hen ysbyty HM Stanley ac i mewn i Lanelwy ei hun. Mae'r llwybr yn mynd i lawr y stryd fawr at eglwys plwyf Llanelwy a hwn oedd y lle nesaf i'r pererinion aros. Es i ddim i mewn i'r eglwys, ond mae cryn hanes iddi. Eglwys St Cyndeyrn oedd yr enw gwreiddiol, a sefydlwyd hi tua 560 AD, ond cafodd ei chysegru i St Asa (Asaph) ganol yr ail ganrif ar bymtheg. A dyna ble mae Dic Aberdaron wedi'i gladdu.

Does dim byd llawer o i'w gofnodi ar y daith o Lanelwy i Bontnewydd – dim ond dilyn y ffordd drwy gefn gwlad hardd iawn. Rhaid cerdded drwyddo i'w werthfawrogi ac mae'n fwy na thebyg mae teulu Williams Wynn a Stad Cefn sydd berchen arno.



Allwch chi ddim methu eglwys y Santes Fair sy'n amlwg iawn ar ben bryn. Dim ond yn 1864 cafodd hon ei hadeiladu o'r graig a gloddiwyd o'i chwmpas hi. Mae olion y cloddio yn eithaf amlwg. Mi es i i mewn i'r eglwys oherwydd ei bod hi'n amser paned a chacen – digon o le i wagu fy mag ac estyn llyfr neu fap, neu anfon neges at Anwen, ac wrth gwrs, amser i feddwl. Mae'n gwneud lles i ni ystyried am ryw ddeg munud pa mor lwcus rydyn ni. Dwi wedi dweud hyn o'r blaen ac mi ddyweda i hyn eto – mae angen i ni gyfrif ein bendithion.

Dwi wedi clywed bod ffynnon rywle ar hyd y darn yma, ffynnon a ddefnyddiwyd gan y pererinion ac mi af yn ôl rywbryd i chwilio amdani. Er fy mod i wedi mynd heibio sawl ffynnon erbyn hyn ac wedi edrych ar y dŵr a pha rinweddau sydd ynddyn nhw i wella. Ond

# Taith y Pererin: parhad

wna i ddim yfed ohonyn nhw, diolch – oni bai bod un yn gallu gwella moelni. Falle wna i roi cynnig ar honno – beth allai fynd o'i le?

Wrth i fi fynd i lawr yr allt at Bontnewydd a diwedd y daith am y diwrnod, mae'n brofiad reit emosiynol a dweud y gwir oherwydd dyna ble cafodd fy mam ei geni a'i magu. Un o bump o blant mewn tyddyn nid nepell o Bontnewydd, ger glannau afon Elwy.

Wrth sefyll ar y bont, roeddwn i'n dyfalu ei bod hi yno gannoedd o flynyddoedd cyn i bererinion ei chroesi. Felly ar un adeg rhaid bod rhyd yno, a byddai'n amhosib croesi afon Elwy ar adegau gan ei bod hi'n afon â llifeiriant cryf. Oni bai bod rhywle arall lle roedd hi'n bosib croesi, wrth gwrs.

Beth bynnag, bydd y cam nesaf yn mynd o Bontnewydd i ble bynnag y caf i hyd i rywle diogel i adael fy meic.

*Bryn Davies*



*Pont Bontnewydd – a'r afon yn ei llawn lif*

Diolch o galon i bawb a gefnogodd y boreau coffi ym mis Tachwedd:

CPD Llandyrnog a thîm Cynghrair yr Haf: £505

Ymchwil Canser: £477

Y Gymdeithas Hanes: £252

£1234 wedi'u codi mewn cwta pum awr!

# Sul y Cofio

Ar Sul y Cofio, 10 Tachwedd 2024 am 11 y bore, cafwyd dau funud o dawelwch ledled y Deyrnas Unedig. Yma yn Llandyrnog daeth tua 60 o bobl ynghyd i wasanaeth ger y gofeb, i gofio'r rheini a fu farw mewn rhyfel. Yn y llun isod mae Rob Hammond a ddarllenodd restr enwau'r meirw, Heather Powell a chwaraeodd y Last Post, a Louise Ecclestone, arweinydd y gwasanaeth.






*Roedd ffenest Tŷ Ceffyl Bach wedi'i haddurno'n hardd iawn i goffáu Dydd y Cadoediad.*

# Merfyn ar daith

Roedd mis Tachwedd eleni yn fis anturus iawn i ni, yn profi golygfeydd, synau a blasau Japan, Hong Kong a Gwlad Thai. Dyma grynodeb o'n teithio – cymysgedd o hanes, diwylliant a golygfeydd anhygoel.

Gadael cartref ddydd Gwener, 1 Tachwedd a hedfan o Fanceinion i Dubai. Er bod Jacob, mab Hilary, yn Llundain ar y pryd, fe gawson ni amser braf iawn gyda Spencer a George, ei hwyrion, cyn hedfan i Tokyo ar 4 Tachwedd. Roedd Tokyo yn brofiad cyffrous iawn, gyda'i Chroesfan Shibuya enwog, goleuadau neon y strydoedd, a golygfeydd anarferol fel pobl yn gyrru Mario-Karts.

Aethon ni ar y trên bwled cyflym iawn o Tokyo i Osaka. Roedd yr uchafbwyntiau yno yn cynnwys Castell Osaka a Pharc Nara, lle roedd ceirw gwyllt yn crwydro'n rhydd, yn moesymgrymu i gael danteithion.



Gwnaeth taith i Hiroshima argraff ddofn iawn arnon ni, wrth i ni ymweld â'r Amgueddfa Goffa Heddwch, a oedd yn ein hatgoffa o hanes torcalonnus y ddinas a'i gwydnwch anhygoel.

Roedd Kyoto yn uchafbwynt arall – cerdded drwy'r goedwig bambŵ yn Arashiyama, croesi Pont Togetsukyo eiconig, a chrwydro Kurama a Kibune, trefi yn y mynyddoedd. Roedd bwyd anhygoel ym marchnad fywiog Nishiki, ac roedd llysywod, crancod a calamari yn flasus iawn. Gallen ni fod wedi treulio rhagor o amser yn Kyoto oherwydd ei hanes cyfoethog a'i hapêl.

O Japan, hedfan i Hong Kong. Er gwaethaf ychydig o law, fe wnaethon ni'n gorau o'n hamser yno, yn cerdded ar hyd strydoedd prysur, yn amsugno egni'r ddinas a mynd i fyny i Gopa Victoria yn y car cebl i weld golygfeydd rhyfeddol.

Ein cyrchfan olaf oedd Phuket, Gwlad Thai, lle cawson ni fwynhau'r haul a thraethau prydferth Kamala, Surin a Patong. Roedd y traethau tawel, hardd yn hollol wahanol i'r Ffordd Bangla fywiog, â'i siopau lliwgar a'r bywyd nos prysur. Ar ddiwedd ein gwyliau, aethon ni i Kata, i werthfawrogi'r awyrgylch mwy hamddenol.

Ar 28 Tachwedd, aethon ni'n ôl i Dubai i ymweld â'r teulu am ychydig ddyddiau ac i weld twrnamaint rygbi 7-bob-ochr Dubai. Roedd y mis Tachwedd hwn yn arbennig o gofiadwy gan fy mod i wedi dathlu fy mhen blwydd yn 66 oed ar y 23ain – carreg filltir gydag anturiaethau cofiadwy, bwyd hynod flasus ac atgofion rhyfeddol.

Ar ôl dychwelyd i Gymru, a mwynhau cysuron ein cartref, dwi'n ystyried y byd amrywiol a hudolus rydyn ni wedi'i brofi. Dwi hefyd yn falch ein bod ni wedi methu'r eira gartref – mae ein mis Tachwedd wedi bod tipyn yn gynhesach! Dydw i ddim yn bwriadu ymddeol ar hyn o bryd – mae cymaint i'w weld a'i wneud eto!

*Merfyn Parry*

# Rysáit

## Pwdin Taffi

Pwdin defnyddiol iawn adeg Nadolig i rai sy'n casáu pwdin Dolig!

**Y Pwdin**
85g menyn meddal
140g siwgr mân
2 wy wedi eu curo
170g blawd codi
170g datys wedi eu malu'n o fân
285g dŵr berwedig
½ llwy de nodd fanila
2 lond llwy de nodd coffi
¾ llwy de carbonad soda

**Y Saws**
170g siwgr brown meddal
115g menyn
90ml hufen dwbl

**Y Tun** Tun cacen 20cm sgwâr, 7.5 o ddyfnder
**Popty**: 180 °C / Ffan 160 °C / Nwy 4

Rhowch y datys mewn bowlen a thywallt y dŵr berwedig drostyn nhw. Ychwanegwch y nodd fanila, y nodd coffi a'r carbonad soda, ei gymysgu, a'r roi i un ochr.
Mewn bowlen fawr, curwch y menyn a'r siwgr mân nes maen nhw'n wyn ac ysgafn. Rhowch y wyau i mewn yn raddol a'u curo'n drwyadl.
Plygwch y blawd yn ysgafn i mewn i'r cymysgedd.
Ychwanegwch y cymysgedd datys yn raddol, efo llwy fwrdd nes y bydd yn troi'n slwtsh.
Tywalltwch yn ofalus i'r tun a'i lefelu.
Coginiwch am 50–55 munud
**Y saws taffi** – cymysgwch bopeth mewn sosban â llwy bren, a'i gynhesu'n araf, nes i'r siwgr doddi'n iawn.
Defnyddiwch fforch i greu tyllau go ddwfn yn nhop y pwdin a thywallt y saws poeth drosto.
Rhowch yn ôl yn y popty i'r saws gael suddo'n iawn a dechrau creu swigod.
Torrwch yn ddarnau sgwâr a'i weini efo hufen neu hufen ia – nefolaidd! Mae'n rhewi'n dda ac yn handi mewn unrhyw achlysur annisgwyl.
Mwynhewch.

*Ann Jones Evans*

# Gild Trefoil

Mwynhaodd yr aelodau arddangosiad o drefnu blodau ar gyfer y Nadolig gan Dorothy Roberts, a'r trefniadau oedd gwobrau'r raffl. Cawsom baned a bisgedi wedyn, sgwrs a chynnig syniadau ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn nesaf. Ein cinio Nadolig yng Nghaffi Cariad, Llanelwy fydd ein cyfarfod nesaf, gydag anrhegion Santa Cudd – i'w prynu o siop elusen.



J & G
TYRE SERVICES

CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS
Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ
01745 817676
07775 717602

# Y Gymdeithas Hanes

**Stadau Mawr Dyffryn Clwyd – sgwrs gan Gareth Evans**

Daeth Gareth Evans, Rhuthun i sgwrsio am Stadau â Thiroedd yn Ddyffryn Clwyd yn y cyfarfod diwethaf. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol cyn y sgwrs: adolygu cyfarfodydd y flwyddyn flaenorol; amlinellu cynlluniau ar gyfer 2025; trafod y sefyllfa ariannol a chadarnhau'r swyddogion.

Roedd yna arddangosfa o bamffledi gwerthiannau gwreiddiol a manylion stadau (ar fenthyg gan aelodau a ffrindiau) e.e. Cerrigllwydion, Glan y Wern, Ystrad a Pool Park ymysg rhai eraill. Dangosodd bawb ddiddordeb mawr yn y rhain cyn ac ar ôl y cyfarfod.

Mae Gareth yn gyn-brif swyddog Cyngor Sir Ddinbych, â gradd mewn hanes o Brifysgol Bangor. Testun ei draethawd ymchwil Gradd Meistr oedd 'Trefi Sir Ddinbych (Dinbych, Rhuthun a Wrecsam) yn yr ail ganrif ar bymtheg'. Ers ymddeol, mae wedi ymchwilio a chyhoeddi llawer ar hanes lleol Rhuthun ac wedi gwneud gwaith ymchwil i stadau lleol.

Eglurodd Gareth fod mwy nag un fferm mewn stad a bod digon o incwm yn dod o'r rhenti i fedru adeiladu plasty. Aeth â ni ar daith hanesyddol y stadau – rhai'n mynd a dod, rhai'n cynyddu, rhai'n â'r hwch yn mynd drwy'r siop, rhai'n cael eu rhannu, a rhai'n cael eu cyfuno â stadau eraill. Cafwyd digon o enghreifftiau lleol e.e. Bachymbyd, Rhydonnen, Llewenni, Glan y Wern, Plas y Ward, Plas Ashpool, Llwyn Ynn, Nantclwyd, Wynnstay, Plas yn Llan, Cerrigllwydion, Bathafarn, Llewenni, Plas Llangwyfan a Pool Park.

Eglurodd hefyd pwy oedd y prif deuluoedd oedd yng ngofal y stadau mawrion yma e.e. Salesbury, Thelwall, Powell, Ashpool, Price, Prys, Bagot, Haygarth, Fairfax, Williams, Roberts, Parry, Ward, Broderick, Wynne, Lloyd, Clough, Naylor Leyland, teuluoedd Jesse a Madocks. Soniodd yn ogystal am y rhan chwaraeodd De Grey, Dudley, Canon Haygarth a'r asiant tir Colonel Hughes o Neuadd Ystrad yn hanes meddiant a rheolaeth y tiroedd hyn. Soniodd am diroedd fyddai'n cael eu rhoi'n gyfnewid am wasanaeth milwrol, am diroedd eglwys a rhai yn eiddo i'r hen lwythi Cymreig.

Soniodd ychydig am y Pla Du, 1348–1350, am y system lle na châi merched etifeddu tir, am dir dyn heb etifedd gwrywaidd yn mynd i'w arglwydd, ac am forgais Cymreig neu Dir Prid oedd yn galluogi'r Cymry i gael morgais wrth geisio prynu'r tir ymhen pedair blynedd.

Roedd yr 1880au yn ddegawd o galedi mawr a dirwasgiad mewn amaethyddiaeth, a phob perchennog stad yn gweld gostyngiad mewn enillion. Rhwng 1900 a 1913, cododd pris cynnyrch amaethyddol 18%, a bu tyfiant mewn daliadaethau rhydd wrth i stadau ddechrau chwalu. Erbyn 1920, gwelwyd tranc yn nosbarth y tirfeddianwyr a bu cynnydd aruthrol yng ngwerthiant tiroedd.

Yn y cyfarfod nesa 15 Ionawr 2025, bydd Tony Griffiths yn cyflwyno ac yn dangos ffilm, 'The Lady in the Wardrobe'.




*Gareth Evans (chwith) gydag aelod o'r pwyllgor, Hywel Davies*

# Ysgol Bryn Clwyd



Pwnc y Dosbarth Babanod oedd dathliadau ac roedden nhw wrth eu bodd. Cychwynnon nhw'r mis trwy wneud lampau Diwali, ac maen nhw'n dysgu am briodasau, clyweliadau am swyddi gwahanol fel ffotograffydd priodasau, arlwyo ac adloniant.

Yn y cyfamser, mwynhaodd disgyblion hŷn Dosbarth Iau eu trip preswyl i Bentrellyncymer. Llwyddon nhw i gerdded y ceunentydd cyn i'r eira ddisgyn, ac yna mwynhau diwrnod arbennig o sledio a chanŵio yn y Brenig.  Ar y diwrnod olaf, roedden nhw wrth ei bodd gyda'r wal ddringo.

Rydym ni'r prysur agosáu at dymor y Nadolig, ac mae nifer o ddigwyddiadau ar y gweill lle byddwn yn croesawu'r gymuned i ymuno â ni. Gwelwch y dyddiau isod os gwelwch yn dda

**Dydd Iau 5 Rhagfyr** am 12 o'r gloch – Cinio Nadolig Cymunedol.

**Dydd Gwener 6 Rhagfyr** – Marchnad Nadolig Ffrindiau'r Ffederasiwn yn Ysgol Gellifor.

**Dydd Mercher 18 Rhagfyr** – Gwasanaeth y Nadolig am 1.30pm.



# Dod i adnabod... Ethan Plumb

Helô, Ethan William Plumb yw fy enw i, ac rwy'n 25 oed.

*Pam wyt ti'n hoffi byw yn Llandyrnog?*
Dwi'n hoffi byw yn Llandyrnog oherwydd y bobl a fy nheulu.

*Beth sy'n dy wneud di'n hapus?*
Mae chwarae pêl-droed yn fy ngwneud i'n hapus, a fy nheulu a fy nghŵn.

*Pa dimau pêl-droed rwyt ti'n eu cefnogi?*
Dwi'n cefnogi Wrecsam, Arsenal, a Llandyrnog Utd a tîm Cynghrair yr Haf.


*Beth yw dy hoff fwyd?*
Fy hoff fwyd yw cig oen, stêc, pysgod, a sglodion.

*A oes gen ti anifail anwes?*
Mae gen i dri chi – Red, Sali a Misty.

*Pwy yw dy arwr?*
Uncle Russ yw fy arwr i (Giggsy).

*Beth sy'n dy wneud di'n flin?*
Dwi'n flin pan mae fy nhîm i'n colli.

*Beth yw'r peth gorau rwyt ti wedi'i wneud erioed?*
Y peth gorau dwi wedi'i wneud erioed yw sgorio cais dros Ysgol Brynhyfryd ac roeddwn i ar y teledu.






*Gosododd Ethan dorch Cyngor Sir Ddinbych yng ngwasanaeth Sul y Cofio yn Llandyrnog ar ran y Cynghorydd Merfyn Parry.*

# Capel y Dyffryn

**Casgliad Dyngarol**

Aeth y casgliad eleni at achos sy'n agos iawn atom ni – mae Heledd Iago yn un o sylfaenwyr Baby Basics Dyffryn Clwyd, ac maen nhw'n gwneud gwaith gwerth chweil drwy roi cymorth ymarferol i famau newydd na allant fforddio'r pethau hanfodol sy'n rhaid eu cael efo babi newydd.

**Y Gymdeithas**

Nos Lun 28 Hydref cafwyd noson hwyliog yn chwarae Bingo yng ngofal Siwan ac Eluned. Diolchwyd i bawb gan Rod.

Nos Lun 11 Tachwedd cyflwynodd John Huw, y Llywydd, Rhian Pierce a fu'n sgwrsio am ei gwaith gyda'r RSPB. Sgwrs ddiddorol a dadlennol dros ben. Diolchwyd gan Alan. Yn dilyn cafwyd stondin i godi arian tuag at y Goeden Nadolig.



*Rhian Pierce (chwith) a Siwan Hulme*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com

**Eisteddfod yr Wyl Cerdd Dant**
Llongyfarchiadau calonnog i bawb oedd yn aelodau o Bartïon Cerdd Dant, Alaw Werin, Llefaru a Chorau a gyrhaeddodd y llwyfan eleni, yn enwedig yr enillwyr unigol:

Mabon Evans 2il Unawd Cerdd Dant Cynradd; Gwenan Mars Lloyd 1af Alaw Werin 14 – 21 oed ac Ail Unawd Cerdd Dant 14 – 21 oed.

**Gwasanaethau**

Rhagfyr 1 – Cyfarfod gweddi'r Adfent am 10am

Rhagfyr 8 – Parch Huw Dylan am 11am

Rhagfyr 15 – Gwasanaeth Nadolig y Plant am 5pm ( Parti Nadolig i ddilyn)

Rhagfyr 22 – Llith a Charol a phaned am 10am


WHEEL BUILDING UK



MOTORCYCLE WHEEL BUILDING SPECIALIST

- Wheel Building
- Spoke Sets
- Aluminium/Chrome/Stainless Rims
- Vapour Blasting
- Metal Polishing
- Powder Coating

MIKE 07455 244 480
mike@wheelbuildinguk.co.uk
www.wheelbuildinguk.co.uk

# Llan Llanast

Dysgom ni am seintiau yng nghyfarfod Tachwedd, yn enwedig seintiau Cymru fel Sant Tyrnog. Rydym ni'n eu gweld yn glir mewn ffenestri gwydrau lliw pan fydd yr haul yn llewyrchu, a golau'r Iesu'n disgleirio drwyddyn nhw. Dysgom ni hefyd fod yna nifer o bobl heddiw sydd yn seintiau am fod golau'r Iesu'n disgleirio drwyddyn nhw hefyd, wrth iddyn nhw ddangos caredigrwydd a thosturi tuag at bobl mewn angen. Gwnaethom ni ffenestri gwydr lliw a lluniau o seintiau, a gwneud bocs golau fel y medrwn weld y seintiau. Gwnaethom ni hefyd addurno caleidosgop a gwneud crefft Sul y Cofio i gofio am y rheini fu farw yn y rhyfel.




Bydd ein sesiwn nesaf ddydd Sul 8 Rhagfyr am 3.30pm yn y Neuadd, felly beth am ymuno â ni i ddathlu bod y Nadolig yn agosáu?

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Canfod metalau

Cafwyd digwyddiad llwyddiannus arall i'r helwyr metalau sydd wedi bod yn ymweld yn rheolaidd â Fferm Llangwyfan. Daethon nhw o hyd i nifer o bethau amrywiol iawn, gan gynnwys:

- Broetsh aur o'r 17eg–18fed ganrif
- Ceiniog arian Edward IV ((1461–1483)
- Botwm lifrai (llwynog)
- Broetsh o'r 18fed ganrif wedi'i gwneud â llaw
- Tocyn cariad o gyfnod William III, tua 1696
- Tocyn ceiniog (1811–1843)
- Broetsh arian a roddwyd i wraig neu gariad milwr, o'r 1900au
- Chwerfan gwerthyd – *spindle whorl* – o'r Canol Oesoedd
- Broetsh Rufeinig o fath Polden Hill, 50–70 AD
- Broetsh arian 18th/19th century
- Bwcl sbectol
- Botymau tombac
- Clawr
- Ceiniog 1912
- Swllt arian William III 1696/1697
- Breichled
- Tocyn ceiniog 1813
- Darn chwe cheiniog Elizabeth 1af (1658–1603)



**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn – rydym yn gwerthfawrogi pob un**



# Hanesion Hazel



Ydy'r Nadolig wedi dod yn gynnar eleni, ai fi sy'n un dda am ddynwared Ebenezer Scrooge yn *A Christmas Carol* – BAH HUMBUG! Dechreuodd y rhaglen radio Heart Breakfast chwarae caneuon Nadoligaidd ar 12 Tachwedd. Mae hynny braidd yn rhy gynnar i fi. Dwi'n un o'r rheini sydd ddim yn gwneud dim byd ynghylch y Nadolig tan fis Rhagfyr – arfer teuluol. Gan fod pen blwydd fy mrawd ar 28 Tachwedd, fyddai Mam byth yn gadael i ddim byd Nadoligaidd ddod i mewn i'r tŷ tan ar ôl hynny. Dywedai fod y Nadolig yn dechrau ar ddydd Sant Nicolas (esgob Myra o'r bedwaredd ganrif), 6 Rhagfyr ac yn gorffen Nos Ystwyll, fel arfer tua 5 Ionawr.

Dydy'r tywydd ddim wedi cyfrannu at y teimlad Nadoligaidd, mae hi wedi bod mor fwyn gyda niwl trwchus iawn. Mae niwl yn ffurfio pan mae tymheredd yr aer a'r gwlithbwynt yn agos at ei gilydd, gan achosi i anwedd dŵr greu dafnau bychan o ddŵr, yn hongian yn yr aer. Fe welson ni sawl enghraifft drawiadol iawn o niwl dyffryn ganol mis Tachwedd. Mae'n digwydd wrth i dymheredd yr aer gynyddu gydag uchder, ac mae'r aer dwys, oer, yn aros yn y dyffryn, ond mae'n glir yn uwch i fyny.

Yr adeg hon o'r flwyddyn, rwy'n dechrau meddwl am blannu bylbiau am y tro olaf eleni. Mis Tachwedd yw'r adeg orau i blannu bylbiau, ond pan mae'r tywydd yn fwyn, gallwch eu plannu ym mis Rhagfyr, felly mae digon o amser. Roedd y tywydd mwyn hefyd yn golygu bod y blodau tri lliw ar ddeg yn dal i flodeuo ac roedd hi'n biti cael gwared arnyn nhw.

Mae bylbiau yn rhoi blodau prydferth iawn yn y gwanwyn ac maen nhw'n boblogaidd ers canrifoedd gan eu bod yn dod â llawer o liw i'r ardd. Mae prinder bylbiau yn y Deyrnas Unedig yn 2024 oherwydd bod y gwanwyn cynhesach a'r haf gwlypach yn effeithio ar y twf a'r cynaeafu yn yr Iseldiroedd. Mae'n debyg bod gostyngiad o 25% yn y cyflenwadau. Mae costau danfon bylbiau ar longau hefyd wedi effeithio ar y cyflenwad; mae hi'n rhy ddrud. Mae gostyngiad mewn cyflenwad yn golygu prisiau uwch – roeddwn i'n gwybod y byddai fy Lefel A mewn Economeg o werth rywbryd. Yn rhyfedd ddigon, maen nhw'n dweud bod y galw am fylbiau wedi cynyddu ers dechrau Covid gan fod pobl yn garddio i gael seibiant o'u bywydau prysur ac i'w cysuro. Roeddwn i'n ffodus i gael rhai mathau dwbl, a mathau eddïog – *fringed*, a math bychan o'r enw Guiseppe Verdi, gyda blodau lliw aur a mymryn o liw coch yn y petalau allanol.




Gan fod yr ardd lysiau'n gwacáu nawr, mae'n adeg taenu compost a thail i roi maeth iddi ar gyfer cnydau'r flwyddyn nesa. Dwi'n dechrau rhoi tail ceffyl ar fy ngwely llysiau ar ddiwedd mis Rhagfyr. Mae'r ieir yn ei chwalu ac mae'n dadelfennu dros y misoedd oerach i ddarparu pridd mân yn y gwanwyn i mi ei droi i mewn. Efallai bydd unrhyw lysiau sydd heb eu cynaeafu yn ildio i lygod, llygod mawr a llygod y gwair sy'n bwyta'r rhai sydd wedi'u cadw yn y pridd. Os bydd tyllau yn eich pannas, eich moron neu eich betys – llygod sydd wedi bod wrthi. Dwi'n codi fy llysiau i ac yn eu cadw allan o gyrraedd anifeiliaid bach.

Yn olaf, yn y dyddiau byrrach, mae'n bryd i chi bori drwy'r catalogau hadau gan fod y diwrnod byrraf ar ei ffordd ddydd Sadwrn, 21 Rhagfyr am 9.19 y bore. Bydd yma cyn i ni droi a gallwn ddechrau edrych ymlaen at ddiwrnod hirach. Pob dymuniad da i chi ar gyfer gwyliau llawen wrth i ni droi ein golygon at 2025 a beth bynnag ddaw yn ei sgil.

**Hazel**

# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd o Gyngor Cymuned Llandyrnog

- Mae Jones Bros wedi cynnig paratoi sylfaen ar gyfer mainc newydd gyferbyn â hen safle Arla. Felly bydd mainc newydd yn cael ei harchebu a bydd Llais Llandyrnog yn talu am ei phrynu.
- Mae problem wedi bod gyda pharcio wrth ymyl Oliver's Row – roedd tractor yn methu mynd heibio'r ceir a oedd wedi parcio yno. Y pryder pennaf oedd y gallai'r un peth ddigwydd gyda cherbyd argyfwng. Mae Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi ymateb gan ddweud ei fod yn fater i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir gan nad oes llinellau melyn na chyfyngiadau parcio yno. Penderfynwyd gweld a fyddai'n bosib cyflwyno rhyw ffurf ar gyfyngiadau parcio.
- Gan ystyried nad oes llawer yn defnyddio rhandiroedd Nant Glyd, gofynnwyd a ddylai'r cyngor cymuned barhau i dalu'r tâl sefydlog blynyddol a'r tâl am ddefnyddio dŵr.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor Cymuned gyfethol rhywun i'r sedd wag.
- Roedd y Cynghorydd Butler wedi bod i gyfarfod Fforwm Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (sef yr hen Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol) lle trafodwyd nifer o faterion.

  Roedd Gwersyll Ceidwaid Ifanc Rhyngwladol wedi bod a daeth pobl ifanc o 11 gwlad yn Ewrop iddo. Cawson nhw fwynhad mawr gan yr ymweliad, yn cymryd rhan mewn projectau adfer natur, chwaraeon, a dysgu am hanes lleol.

  Mae swyddogion y project Awyr Dywyll yn awyddus i ddod â'u planetariwm i neuadd y pentre fel bod y disgyblion yn gallu gweld sut mae'n gweithio, gyda'r gobaith o ennyn diddordeb yn y sêr.

  Bydd y cyfnod ymgynghori o ran y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn dod i ben ddydd Llun, 16 Rhagfyr ac mae sesiynau galw heibio yn digwydd ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar-lein a anogir pawb i ateb yr arolwg fel bod yr awdurdodau yn cael barn gytbwys.
- Mae angen côt o baent ar y safleoedd bysiau – bydd hyn yn digwydd yn y gwanwyn.
- Cafwyd dau gais cynllunio:
  - Cartws tair â thri rhaniad ym Mwthyn Glan y Wern – dim pryderon
  - Estyniad i ffermdy Fferm Llangwyfan – nid oedd gwrthwynebiad i'r egwyddor. Fodd bynnag, y dymuniad oedd gofyn i'r awdurdod cynllunio holi a fyddai'r dylunydd yn gallu ailystyried y ffenestri o'r nenfwd i'r llawr yn yr ystafelloedd ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Byddai dyluniad mwy addas i'r ffenestri yn lleihau'r effaith gyffredinol.
- Penderfynwyd y bydd y Cyngor Cymuned yn codi coeden Nadolig ar dir yr eglwys eto eleni. Y Clerc y drefnu nôl y goeden a'i gosod, a gofyn am ganiatâd yr eglwys cyn ei phrynu.

Diolch yn fawr unwaith eto eleni i Glyn a Carol Davies am noddi'r goeden Nadolig. Mae'n codi ein calonnau i weld ei goleuadau yn ystod nosweithiau tywyll mis Rhagfyr.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*